Y CRIW Mentrus



Cynradd Is

# Gweithgaredd 11:
# Sut wnaethom ni?

## Amcan dysgu

Galluogi disgyblion i adolygu llwyddiant eu gweithgaredd menter.

## Nodweddion Entrepreneuriaeth

**Agwedd**

- Hunanhyder

**Cysylltiadau**

- Cyfathrebu
- Gweithio gydag eraill
- Trafod, darbwyllo a dylanwadu

## Gweithgareddau dysgu

Trafodwch ganlyniadau eu prosiect menter gyda'r disgyblion.

- *"Pa mor llwyddiannus oeddem ni?"*
- *"Faint o gynnyrch wnaethom ni ei werthu?"*
- *"Faint o elw wnaethom ni?"*
- *"Beth wnaethom ddysgu?"*
- *"Beth wnaethom ni fwynhau fwyaf?"*
- *"Beth fuasem yn ei newid/yn ei wella erbyn y tro nesaf?"*

Mae hwn yn gyfle da i gynnal hunan asesiad ac asesiad cymheiriaid. Gofynnwch i'r disgyblion eraill roi adborth adeiladol.

Gan ddefnyddio ffotograffau o'r prosiect menter, mae'r disgyblion yn creu cyflwyniad Y Criw Mentrus am eu menter i rannu eu canfyddiadau â'r dosbarth, a gweddill yr ysgol, Hysbyswch y rhieni trwy wefan yr ysgol ac/neu gylchlythyr.

Dathlwch eu llwyddiant. Mae eich disgyblion yn awr yn Griw Mentrus!

# Gweithgaredd 11:
## Sut wnaethom ni?

Cynradd Is

### Canlyniad Dysgu

Mae’r disgyblion yn ystyried a gwerthuso eu menter.



### Adnoddau sydd eu hangen

- TGCh



## Cwricwlwm ar gyfer Cymru

### 1. Sgiliau Trawsgwricwlaidd

**Llythrennedd**

**Siarad**

- Ymddiddan cydweithredol
- Cwestiynu



**Gwrando**

- Gwrando er mwyn deall
- Gwrando fel rhan o ymddiddan cydweithredol

**Cymhwysedd digidol**

- Darganfod, chwilio a chynllunio cynnwys digidol
- Creu cynnwys digidol
- Gwerthuso a gwella cynnwys digidol





Llywodraeth Cymru
Welsh Government